

ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

Cynghorydd: Elin Walker Jones	Grŵp: Plaid Cymru
Ward: Glyder	
Bwriad yr adroddiad blynyddol: Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.	
Rôl a chyfrifoldebau: Aelod etholedig ward Glyder, Bangor. Aelod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Is-Gadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol Aelod o'r Pwyllgor Rhiantu Corfforaethol (tan Ionawr 2016) Aelod o'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Gwynedd a Môn Aelod o Fwrdd Prosiect Hafod Lon Newydd Aelod o'r Panel Iechyd, Diogelwch a Lles Pencampwr Awtistiaeth Gwynedd	
Gweithgareddau etholaethol: Delio efo materion lleol yn ôl y galw, gan gynnwys materion traffig a diogelwch croesi'r ffordd; diogelwch cyffredinol, cyflwr y lonydd, palmentydd a throedffyrdd; baw ci, biniau, sbwriel, cyflwr tai a fflatiau, materion tai a digartrefedd, materion cynllunio, torcyfraith a chyffuriau, goleuadau stryd, draeniau, ffon, torri coed a gwrychoedd, glendid strydoedd, tipio ar y slei, eiriolaeth, addysg ac anghenion dysgu ychwanegol, lleoliadau addysg a thrafnidiaeth i'r lleoliadau, gwaith ar y ffordd, ayb. Cydweithio efo trigolion, cyd-gynghorwyr, swyddogion, ysgolion, aelodau cabinet, aelodau seneddol a chynulliad, yr heddlu, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cefnogi Asperger / Awtistiaeth Gwynedd a Môn, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, a rhanddeiliaid eraill ymhob sector ar amryw o faterion.	
Mentrau a gweithgareddau eraill: Menter Iaith Bangor Aelod o'r Bwrdd. Cyfrannu at waith y Fenter i sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru i ariannu canolfan newydd i'r Fenter ym Mangor, a swydd swyddog datblygu. Helpu efo gweithgareddau Fenter ee Pared Dydd Gŵyl Dewi. Cefnogi gweithgareddau eraill grwpiau cymunedol Bangor ar ran y Fenter, ee y Carnifal, gweithgareddau'r Nadolig ym Mangor. Prif drefnydd Ras yr Iaith ym Mangor ar ran y Fenter gan gydweithio ag eraill i wireddu cynnal cymal cyntaf y Ras ym Mangor.	
CPERA, Grŵp Cymunedol Maestryfan ac ardaloedd eraill y Ward Cadeirydd CPERA (Cymdeithas Pobl Eithinog). Cydweithio i sicrhau fod gwaith sylweddol yn cael ei gwblhau i wella diogelwch y ddwy ysgol trwy wella cyflwr y lonydd a phalmentydd, a threfnu mesurau diogelwch i reoli traffig Ymateb i alwadau unigol. Hefyd, sicrhau gwelliannau amrywiol i'r ardal (ee palmentydd, torri glaswellt ayyb) Sgwadiau sbwriel wedi eu cynnal ar nifer o achlysuron yn y ddwy stad. Cydlynedd Gwarchod y Gyndogaeth yn y ward Gweithio efo'r Cyngor i wella diogelwch Ffordd Penrhos.	
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru Treulio amser efo gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru er mwyn deall yr heriau yn wynebu'n gwarchodfeydd.	
Parkrun Penrhyn Gwirfoddoli'n gyson i sicrhau fod y Parkrun yn dal i lwyddo- - mae 150 o redwyr yn aml.	
Bws Cerdded Trefnu bws cerdded yn ystod Wythnos Cerdded i'r Ysgol.	
Awtistiaeth Ymgyrchu i geisio sicrhau fod y Cyngor yn cadw cyllid Awtistiaeth ar gyfer y maes, a gweithio gyda swyddogion i symud yr agenda ymlaen. Agor Cynhadledd Derwen i rannu gweithgarwch y tîm efo plant a phobl ifanc ag Awtistiaeth y sir. Ymateb i anghenion unigolion yn ôl y galw.	

Plaid Cymru

Gweithio i Blaid Cymru - is-gadeirydd cangen Plaid Cymru Bangor, mynychu'r gynhadledd flynyddol, cymryd rhan mewn panel trafod ar lechyd, aelod o'r Fforwm Polisi ,cyfrannu at nifer o ymgyrchoedd etholiadol.

Gwaith Lles ac Anghenion Ychwanegol

Ymweld â bws anghenion clyw Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS) yn Ysgol Tryfan
Cyfarfod efo cwnselydd ysgolion er mwyn deall ei waith yn well, a hyrwyddo'r gwaith.
Cyfarfodydd efo athrawon lles er mwyn mynd i'r afael a phwysigrwydd lles mewn ysgolion.
Ymateb i ymgyngoriad Frondeg a chymryd rhan yn y Fforwm i ddatblygu'r safle newydd.

Partneriaeth Fasnach a Buddsoddiad Trawsiwerydd (TTIP):

Trefnu digwyddiadau stryd ar ran Plaid Cymru i dynnu sylw'r cyhoedd at anfanteision TTIP. Cyfrannu i lyfryn Jill Evans ASE ar TTIP (www.jillevans.net/ttip&chymru.pdf)

Cyfrannu at waith gwirfoddol

Cyfrannu at amrywiol weithgareddau gwirfoddol ee cinio Nadolig Canolfan Gymunedol Coed Mawr, gwerthu calendrau Grŵp Cymunedol Pobl Bangor, Tîm Irfon, Ras yr Iaith.

Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:

PWYLLGOR	NIFER CYFARFODYDD*	PRESENN OL	YMDDIHEURO	ABSENNOL
Y Cyngor	6	6	0	0
Pwyllgor Cynllunio	2	2	0	0
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	5	5	0	0
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	5	5	0	0
Fforwm Ogwen	3	0	3	0

* NIFER CYFARFODYDD Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015/16
Canran Presenoldeb: 86%

Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir oherwydd:

Y pwyllgor yn gwrthdaro efo gwaith, a dim digon o rybudd i'm galluogi i newid pethau

Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:

Aelod o Fwrdd Prosiect Hafod Lon Newydd, gan gynnwys Grŵp Tasg yr Uned Breswyl
Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg Gymraeg
Gweithdai Toriadau
Sesiynnau briffio Addysg

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol neu'r cyfarfodydd canlynol:

Llywodraethwr Ysgol y Garnedd (Llywodraethwr a chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu
Archwiliad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i faes Oedolion
Sioe amgylcheddol Trefi Taclus – ymweliad ag Ysgol y Garnedd.

Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:

	Dyddiad
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014)	7 Gorffennaf 2015
Gwybodaeth am Bobl – Eich Cyfrifoldeb Chi	13 Ionawr 2016
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014)	21 Ionawr 2016

Cyfanswm nifer o oriau: 6